



PRIFYSGOL  
**BANGOR**  
UNIVERSITY

**STRATEGAETH CAFFAEL**

**2023-2026**

## 1. Cefndir a Phwrpas

Gweledigaeth Prifysgol Bangor yw bod yn brifysgol ac iddi gysylltiadau byd-eang, sy'n gwireddu cyfleoedd ar gyfer llwyddiant trwy ymchwil ac addysgu trawsnewidiol ac arloesol a sbardunir gan effaith, gyda ffocws ar gynaliadwyedd - diogelu'r amgylchedd, adfywio iechyd cymdeithas, a hyrwyddo ffyniant economaidd, cymdeithasol, dwyieithog, a diwylliannol<sup>1</sup>.

Yn sail i Strategaeth y Brifysgol 2030 mae cynaliadwyedd sefydliadol, sy'n cynnwys blaenoriaethau ar gyfer ymdrechu i sicrhau gwytnwch ariannol, darparu gwasanaethau trwy wasanaethau proffesiynol modern a dull digidol yn gyntaf.

Mae'n hanfodol caffael nwyddau, gwaith a gwasanaethau mewn dull effeithlon ac effeithiol er mwyn cefnogi'r brifysgol i gyflawni ei hamcanion a blaenoriaethau strategol. Yn hollbwysig, mae'n broses sy'n sicrhau gwerth am arian (y cyfuniad gorau posibl o gostau ac ansawdd oes gyfan) wrth ymrwymo gwariant ac eithrio cyflogau'r Brifysgol (oddeutu £38m). Gall caffael a reolir yn dda gynorthwyo i gyflawni'r deilliannau cymdeithasol, economaidd, dwyieithog ac amgylcheddol a ddymunir gan y Brifysgol, yn ogystal â bod yn arf i gymell arloesedd.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu Strategaeth Caffael y Brifysgol ar gyfer y blynyddoedd 2023 i 2026. Mae'n disgrifio sut y bydd caffael yn cael ei ail-leoli i fod yn swyddogaeth fwy strategol er mwyn cefnogi'r gwaith o wireddu cynllun strategol y Brifysgol yn well. Caiff y strategaeth ei chefnogi gan gynllun gweithredu lefel uchel a chynlluniau gwelliant blynyddol, ynghyd â phroses ar gyfer rheoli ac adrodd ar gynnydd a pherfformiad.

## 2. Diffinio Caffael

At ddibenion y ddogfen strategaeth hon, diffinnir caffael fel:

*“y broses trwy'r hon y mae sefydliadau yn cwrdd â'u hanghenion am nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian ar sail oes gyfan o ran creu buddion nid yn unig i'r sefydliad, ond hefyd i gymdeithas a'r economi, a pheri'r niwed lleiaf posibl i'r amgylchedd ar yr un pryd.”<sup>2</sup>*

## 3. Cenhadaeth Caffael

Cenhadaeth Prifysgol Bangor dros gaffael yw darparu gwasanaeth caffael o ansawdd uchel sy'n addas i'r diben ac sy'n cydymffurfio, a fydd yn sicrhau gwerth am arian wrth gefnogi a chyfrannu at amcanion arloesedd, cydraddoldeb, cynaliadwyedd a chymdeithasol y Brifysgol.

---

Prifysgol Bangor (2021) *Strategaeth 2030 - Byd Cynaliadwy i Genedlaethau'r Dyfodol* Ar gael yn <https://www.bangor.ac.uk/cy/strategaeth-2030> (Cyrchwyd 07/04/22)

<sup>2</sup>Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (2006) *Procuring the Future*. Tud 10

#### 4. Gweledigaeth Caffael


Bod yn bartner masnachol a strategol uchel ei barch sy'n gweithio mewn cydweithrediad â staff academiaidd a staff gwasanaethau proffesiynol eraill i gyflawni projectau caffael sy'n arloesol, yn gynaliadwy ac yn dangos gwerth am arian.

#### 5. Perchnogaeth a Chymeradwyaeth y Strategaeth

Mae'r Strategaeth Caffael hon yn eiddo i'r Dirprwy Gyfarwyddwr (Caffael a Thaliadau) ac yn cael ei chynnal ganddo/ganddi; fe'i noddir gan y Prif Swyddog Cyllid. Paratoir cynlluniau gweithredu a gwelliant blynyddol i ddangos cynnydd yn erbyn y strategaeth ac i fesur perfformiad yn barhaus. Caiff perfformiad ei fonitro gan y Prif Swyddog Cyllid a byddir yn adrodd arno ddwywaith y flwyddyn i'r Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

#### 6. Data Gwario (Lefel Uchel)

Gellir rhannu gwariant caffael Prifysgol Bangor yn 9 categori bras a gellir gweld y gwariant o fewn y categorïau hynny yn y siart cylch isod:



Ffig. 1.1. Gwariant Gategori<sup>3</sup>

<sup>3</sup> Data a gymerwyd o Feddalwedd Dadansoddi Gwariant Atamis, Ebrill 2022


Er mwyn gwireddu ei chenhadaeth strategol, mae angen cefnogaeth nifer o gyflenwyr a chontractwyr allanol ar y Brifysgol. Yn 2020/2021, gwariodd y Brifysgol oddeutu £38m ar amrywiaeth o nwyddau, gwaith a gwasanaethau gyda thua 1390 o gyflenwyr. Mae hyn yn cynrychioli 28.5% o gyfanswm gwariant y brifysgol.

Mae dadansoddiad Pareto yn awgrymu y dylai 80% o wariant y brifysgol gael ei wario'n ddelfrydol gyda 20% o'r cyfanswm o gyflenwyr. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21, gwariwyd 80% o'r gwariant gyda 9.2% o gyflenwyr. Mae hyn yn dal i fod yn gymharol isel ond yn welliant ar ddatblygiad y strategaeth caffael flaenorol pan wariwyd 80% o'r gwariant gyda dim ond 3.2% o gyflenwyr. Mae lle i wella ymhellach.

## 7. Asesiad Aeddfedrwydd Caffael

Ym mis Mawrth 2022, cynhaliodd Prifysgol Bangor Asesiad Aeddfedrwydd Caffael (PMA) a ymgymerwyd gan SUMS Consulting. Mae'r PMA yn asesiad annibynnol sy'n mesur gallu a chymhwysedd caffael sefydliad yn erbyn arfer gorau swyddogaethol. Canlyniad y PMA yw cynllun gweithredu i gynorthwyo gyda datblygu aeddfedrwydd mewn meysydd strategol allweddol.

Ystyrir bod aeddfedrwydd caffael ar draws y Brifysgol ar hyn o bryd yn y cyfnod 'Datblygu' o ran aeddfedrwydd caffael ac yn y chwarter isaf o ran effeithiolrwydd caffael. Nod y strategaeth hon yw gwella perfformiad caffael trwy ail-leoli caffael i fod yn swyddogaeth fwy strategol.



Ffig 1.2 Sefyllfa Prifysgol Bangor o'i chymharu â'r Sector<sup>4</sup>

<sup>4</sup> PSS Procurement Shared Service (2022) PMA+ Report Finalised (Bangor University).

Datblygwyd cynllun gweithredu 3 blynedd manwl i ddangos sut y bydd gwelliannau'n cael eu rheoli a'u mesur. Caiff y cynllun gweithredu ei adolygu'n flynyddol a chynhelir PMA pellach ym mis Ionawr/Chwefror 2025 i asesu'r cynnydd cyffredinol.

## 8. Datganiad Polisi Caffael Cymru

Mae [Datganiad Polisi Caffael Cymru](#) yn amlinellu'r cyfeiriad strategol ar gyfer caffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Gweledigaeth y Datganiad yw i gaffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru fod yn "ddull pwerus o sicrhau newid parhaus i gyflawni canlyniadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol er lles Cymru"<sup>5</sup>.

Mae gan y datganiad polisi 10 egwyddor ar gyfer lles caffael i Gymru yn seiliedig ar nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a pholisïau allweddol Llywodraeth Cymru. Bydd Prifysgol Bangor yn cefnogi egwyddorion Datganiad Polisi Caffael Cymru ym mhob gweithgaredd caffael, gan fod yr egwyddorion yn cyd-daro'n gyffredinol ag amcanion strategol y Brifysgol.

## 9. Amcanion Strategol.

Nod y Strategaeth Caffael hon yw cyflawni'r amcanion canlynol:

1. Cefnogi amcanion corfforaethol y Brifysgol a amlinellir yn Strategaeth 2030 y Brifysgol.
2. Ail-leoli'r swyddogaeth gaffael o lefel 'Ddatblygu' i lefel ' Gynlluniedig' o aeddfedrwydd.
3. Hyrwyddo cyflwyno gwerth am arian trwy arferion caffael da a'r defnydd gorau posibl o gyfleoedd cydweithredol ar gaffael.
4. Rheoli contractau'n effeithiol a sicrhau gwerth a pherfformiad parhaus a'r risg leiaf bosibl drwy gydol oes contractau trwy gydweithio'n agos â chyflenwyr.
5. Meithrin gallu a chpasiti mewn adnoddau caffael a datblygu sgiliau'r holl staff sy'n ymwneud â chaffael trwy hyfforddi, datblygu a lledaenu arferion da yn effeithiol.
6. Ymgorffori amcanion moesegol, cymdeithasol ac amgylcheddol cadarn ym mholisïau, gweithdrefnau a phrosesau caffael y Brifysgol.
7. Lleihau costau'r broses o gaffael trwy symleiddio a defnyddio technoleg briodol.
8. Cefnogi'r economi leol drwy brynu'n lleol lle bo'n briodol a gweithio mewn ffordd agored a chydweithredol gyda busnesau lleol.

Cyflawnir yr amcanion hyn drwy roi gwelliannau ar waith yn y meysydd caffael strategol a ganlyn.

---

<sup>5</sup> Llywodraeth Cymru. (2021) *Datganiad Polisi Caffael Cymru*. Ar gael yn [natganiad polisi caffael Cymru \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#) (Cyrchwyd 07/04/22)

## 9.1 Llywodraethu.

Mae'r Strategaeth Caffael yn amlinellu'r cyfeiriad strategol ar gyfer caffael, gan sicrhau bod yr amcanion yn cefnogi strategaeth gorfforaethol y Brifysgol a symudiad tuag at arferion gorau ym maes caffael. Cefnogir y Strategaeth Caffael gan Weithdrefnau Caffael a dogfennau arweiniol eraill, sy'n amlinellu sut y dylid ymgymryd â chaffael o ddydd i ddydd.

Cyflwynir adroddiad blynyddol i Fwrdd Gweithredol y Brifysgol, y Pwyllgor Archwiliad a Risg a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar y gweithgareddau a ymgymerwyd gan y swyddogaeth gaffael, ynghyd â chyraeddiadau ac arbedion a gyflawnwyd. Yn y dyfodol, bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys adran ar gynnydd o ran cyflawni'r amcanion strategol.

### Meysydd i'w gwella:

- G1:** Datblygu cynllun gweithredu/gwelliant blynyddol i reoli a dangos cynnydd yn erbyn yr amcanion i'w cyflawni a nodir yn y strategaeth.
- G2:** Cyflwyno adolygiadau ôl-gaffael i nodi gwersi a ddysgwyd o'r broses ac i ddangos a sicrhawyd buddion caffael a gwerth am arian.

## 9.2 Adrodd a Dangosyddion Perfformiad Allweddol.

Mae Prifysgol Bangor eisoes yn adrodd ar y Dangosyddion Perfformiad Caffael Addysg Uwch cyffredin bob blwyddyn. Caiff dangosyddion pellach eu datblygu i ddangos sut mae caffael yn cynorthwyo'r Brifysgol i gyflawni amcanion corfforaethol, megis gwerth am arian a chynaliadwyedd (Gweler Adran 11). Bydd y Tîm Caffael yn cynnal dadansoddiad blynyddol o wariant yn y Colegau a Gwasanaethau Proffesiynol i nodi cyfleoedd ar gyfer arbedion, meysydd ar gyfer gwella caffael, ac unrhyw risgiau posibl.

### Meysydd i'w gwella:

- R1:** Gweithredu mesurau perfformiad pellach y tu hwnt i'r adrodd safonol ar Ddangosyddion Perfformiad Caffael Addysg Uwch. Perfformiad i'w adrodd fel rhan greiddiol o adroddiadau perfformiad ariannol y Brifysgol.
- R2:** Dulliau newydd o adrodd gwybodaeth am arbedion i'w cynllunio a'u gweithredu.
- R3:** Cofrestr contractau'r Brifysgol i'w diweddarau gyda'r nod o sicrhau manylion am 75% o wariant y gellir dylanwadu arno.
- R4:** Ysgogi defnydd o dechnoleg/meddalwedd i nodi gwariant annibynnol o gontract.
- R5:** Adroddiadau caffael i'w llunio ar gyfer Colegau a Gwasanaethau Proffesiynol gwariant uchel a fydd yn nodi cyfleoedd a risgiau.

### 9.3 Trefniadol.

Mae gan Brifysgol Bangor strwythur caffael wedi'i ddatganoli, lle mae staff yn y Colegau a Gwasanaethau Proffesiynol yn gyfrifol am gyrchu cyflenwyr gwaith, nwyddau a gwasanaethau gyda'r tîm caffael canolog yn gyfrifol am osod strategaeth, polisi a gweithdrefnau ac am roi cyfeiriad ac arweiniad i gydweithwyr ar brojectau caffael unigol.

Mae'r Tîm Caffael yn rhan o Adain Caffael a Thaliadau'r Adran Gyllid ac yn adrodd yn y pen draw i'r Prif Swyddog Cyllid. Serch hynny, o ran gwaith o ddydd i ddydd, nod y tîm fydd atgyfnerthu'r berthynas waith agos sy'n bodoli gydag academyddion a staff mewn gwasanaethau proffesiynol eraill. Y nod yw i staff caffael fabwysiadu dull rheoli categori a chael eu hystyried yn bartner masnachol ac yn adnodd ychwanegol i gynorthwyo gyda'r broses o gynllunio busnes, nodi arbedion, a chyflwyno contractau sy'n cefnogi darpariaeth lwyddiannus projectau ymchwil a chynnig gwasanaethau proffesiynol o ansawdd uchel.

Yn 2020/21, dylanwadodd y Tîm Caffael ar oddeutu 42% o wariant nad oedd yn gysylltiedig â chyflogau, er i hynny fod mor uchel â 66% yn y flwyddyn flaenorol. Y targed yw cynyddu swm y gwariant nad yw'n gysylltiedig â chyflogau y mae'r Tîm Caffael yn dylanwadu arno i gyfartaledd y sector o 75%.

Mae'r Tîm Caffael hefyd yn gweithio'n agos gyda Chonsortia Caffael, yng Ngogledd Orllewin Lloegr ac yng Nghymru, a hefyd gyda chydweithwyr o sefydliadau addysg uwch eraill.

#### Meysydd i'w gwella:

- O1:** Yn dilyn trafodaeth gyda chynrychiolwyr coleg a Phenaethiaid Gwasanaethau Proffesiynol, paratoi rhaglen waith flynyddol i gynnwys tendrau/contractau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn. Bydd hyn yn cynnwys gwariant cyfalaf.
- O2:** Rhaglenni gwaith i sicrhau y cynhwysir digon o amser ar gyfer trafodaethau manwl ar baratoi manylebau a'r allbynnau gofynnol cyn bwrw ymlaen ag unrhyw weithgaredd tendro.
- O3:** Ailgyflwyno cyfarfodydd rhanddeiliaid chwarterol gyda gwasanaethau proffesiynol gwariant uchel i drafod gweithgaredd caffael parhaus a chynnig mewnbwn i gynlluniau busnes.
- O4:** Gweithredu mecanwaith ar gyfer casglu adborth gan gwsmeriaid mewnol.

#### 9.4 Adnoddau a Sgiliau.

Mae swyddogaeth Gaffael Prifysgol Bangor yn gymharol fechan gyda dim ond 2.5 aelod staff. Mae dau aelod staff â chymhwyster CIPS (Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi) llawn ac mae'r trydydd aelod staff yn dilyn cwrs hyfforddiant proffesiynol CIPS ar hyn o bryd. Bwriad y Brifysgol yw dyblu maint y tîm.

Caiff fframwaith cymwyseddau ei ddatblygu i nodi cryfderau presennol a meysydd gwan ar gyfer staff yn y Brifysgol, yn enwedig y rhai sy'n gyfrifol am reoli contractau o werth uchel. Datblygir cyrsiau hyfforddi lle nodir gwendidau cyffredin.

Mae hyfforddiant caffael cyffredinol wedi cael ei ddarparu i staff mewn blynyddoedd blaenorol, gydag ambell gwrs ad-hoc yn cael ei gynnig ar gais. Mae angen hyfforddiant pellach gan ystyried creu gwahaniaeth clir rhwng staff sy'n ymgymryd â gweithgareddau cyrchu cyflenwyr a staff sy'n ymdrin â'r broses drafodiadol o brynu.

Bydd y pecyn cynefino a ddarperir i bob gweithiwr newydd yn cynnwys cyflwyniad i gaffael yn y Brifysgol.

#### Meysydd i'w gwella:

- RS1:** Cyflwyno cynllun gwaith clir a chynhwysfawr ar gyfer staff yn y Tîm Caffael. Cefnogi hyfforddiant a datblygiad lle nodir gwendidau posibl.
- RS2:** Defnyddio fframwaith cymwyseddau i sicrhau bod gan staff y sgiliau angenrheidiol i gyflawni eu swyddi yn effeithiol.
- RS3:** Yr holl staff nad ydynt yn staff caffael, ond sydd ag awdurdod i gaffael, i dderbyn lefel briodol o hyfforddiant caffael.
- RS4:** Cyfeirio at weithgaredd caffael yn y pecyn cynefino ar gyfer pob gweithiwr newydd fel rhan o ymgyrch gyson i gynyddu gwerth am arian.
- RS5:** Fel rhan o ymgorffori diwylliant masnachol yn y Brifysgol, cynllunio trafodaethau masnachol rhwng uwch randdeiliaid a chaffael gan gynnwys adolygu eu cynlluniau strategol. Anelu at gyfrannu i drafodaethau ar welliannau busnes cyffredinol.

#### 9.5 Cyfrifoldebau Corfforaethol a Chymdeithasol

Mae Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol yn un o amcanion strategol allweddol y brifysgol, h.y. Byd Cynaliadwy i Genedlaethau'r Dyfodol. Mae Prifysgol Bangor wedi datgan Argyfwng Hinsawdd ac mae ganddi darged i fod yn Ddi-garbon Net erbyn 2030. Mae'r Brifysgol hefyd wedi ymrwymo'n wirfoddol i Nodau Llesiant Llywodraeth Cymru sy'n deillio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) sydd â'r nod o wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Gall caffael nwyddau, gwaith a



gwasanaethau gyfrannu'n sylweddol at bob agwedd ar yr agenda cynaliadwyedd ac agenda'r economi gylchol, gan gynnwys materion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol.

Bydd y Tîm Caffael yn gweithio'n agos gyda'r Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol dros Gynaliadwyedd a'r Grŵp Strategaeth Cynaliadwyedd i gyflawni amcanion ehangach y brifysgol ar gynaliadwyedd. Mae hyn yn cynnwys troi'n garbon niwtral, anelu at ddim gwastraff, cynnal statws Masnach Deg a chaffael bwyd o ffynonellau cynaliadwy.

Mae nifer o fentrau cynaliadwyedd cysylltiedig â chaffael y mae'r Tîm Caffael eisoes wedi'u mabwysiadu a rhai eraill a gânt eu hystyried yn y dyfodol.

#### 9.5.1 Rhestrau Gwirio Caffael Cynaliadwy

Mae'r Rhestr Wirio Caffael Cynaliadwy wedi'i chynllunio i gynorthwyo prynwyr i nodi effeithiau ar gynaliadwyedd sy'n gysylltiedig â'r nwyddau, gwasanaethau neu waith sy'n cael eu caffael ac i ystyried sut y gellir mynd i'r afael ag unrhyw risgiau neu gyfleoedd fel rhan o'r broses dendro. Mae'r Rhestr Wirio Caffael Cynaliadwy yn cwmpasu pob maes cynaliadwyedd, gan gynnwys lleihau carbon, effeithlonrwydd ynni, rheoli gwastraff, a chyfrifoldeb cymdeithasol. Caiff Asesiad Risg Cynaliadwyedd ei gwblhau ar gyfer caffaeliadau dros £50k.

#### 9.5.2 Cyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi / Cyflog Byw.

Mae Prifysgol Bangor wedi mabwysiadu Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gaffael Moesebol mewn Cadwyni Cyflenwi. Mae wedi'i gynllunio i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel yn cael eu darparu ledled Cymru gan weithlu sy'n cael ei drin yn gyfreithlon, yn deg ac yn ddiogel, ac yn cael ei dalu'n dda. Mae'r Cod yn ymdrin â chaethwasiaeth fodern a cham-drin hawliau dynol a thalu'r cyflog byw mewn contractau perthnasol. Byddwn yn annog ein cyflenwyr a'n darparwyr gwasanaeth i fabwysiadu'r Cod Ymarfer ar Gaffael Moesebol hefyd ac i dalu'r cyflog byw gwirioneddol i weithwyr sy'n gweithio'n rheolaidd yn ein hadeiladau.

#### 9.5.3 Caethwasiaeth Fodern

Mae Prifysgol Bangor yn cydnabod bod ganddi gyfrifoldeb i weithredu'n gadarn o ran caethwasiaeth a masnachu pobl. Mae'r brifysgol wedi ymrwymo i atal caethwasiaeth a masnachu pobl o'i gweithgareddau corfforaethol, ac i geisio sicrhau nad yw caethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd yn ei chadwyni cyflenwi.

#### 9.5.4 Gwerth Cymdeithasol/Buddion Cymunedol

Ystyrir gwerth cymdeithasol fel y budd ehangach a gaiff cymuned leol yn sgil darparu contractau cyhoeddus. Mae'n ymwneud â gwella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol o gontractau sector cyhoeddus ar ben darparu'r gwasanaethau sy'n ofynnol

yn uniongyrchol heb unrhyw gost ychwanegol. Yn achos sefydliadau addysg uwch, ystyrir y gellir gweld gwerth cymdeithasol o dan bedair thema allweddol:

Swyddi: Hyrwyddo sgiliau a chyflogaeth leol

Twf: Cefnogi twf busnesau rhanbarthol cyfrifol

Cymdeithasol: Cymunedau iachach, mwy diogel a mwy gwydn

Yr Amgylchedd: Datgarboneiddio a diogelu ein byd.

Bydd y Tîm Caffael yn cefnogi [Strategaeth Cenhadaeth Ddinesig](#) y Brifysgol ac yn gweithio gyda'r Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol dros Gysylltiadau Dinesig ym meysydd gwerth cymdeithasol a buddion cymunedol.

Ym mhob achos o gaffael dros £2m, bydd Prifysgol Bangor yn ystyried sut y gall wella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol ei hardal trwy gynnwys cymalau budd cymunedol, i gynorthwyo â chyflawni cynaliadwyedd mewn gweithgaredd contractio, gan gynnwys recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu, datblygu busnesau bach a mentrau cymdeithasol ac ymgysylltu â'r gymuned. Lle bo'n berthnasol ac yn gymesur, a lle ystyrir nad ydynt yn cael effaith negyddol ar ddarparu gwerth am arian, gellir cynnwys cymalau o'r fath hefyd mewn achosion o gaffael wedi'u rheoleiddio sy'n werth llai na £2m.

#### 9.5.5 NETpositive Supplier Engagement Tool

Byddwn yn annog ein cyflenwyr i fod yn fwy cynaliadwy drwy ofyn iddynt gofrestru â'r *NETpositive Supplier Engagement Tool*. Mae'r adnodd yn galluogi cyflenwyr i ddatblygu cynllun gweithredu cynaliadwyedd yn unol ag amcanion amgylcheddol, cynaliadwyedd a sefydliadol y Brifysgol. Mae'r adnodd yn caniatáu i gyflenwyr fynd y tu hwnt i ymrwymiad i gynaliadwyedd ac yn cynnig cynllun gweithredu wedi'i deilwra iddynt, un y gellir ei fonitro a'i fesur. Gall y cynllun gweithredu gynnig ffocws clir a mesuradwy ar gyfer trafodaethau rheoli contractau.

#### 9.5.6 Meincnodi a Gwella Caffael Cynaliadwy.

Fel ffordd o feincnodi ein perfformiad caffael cynaliadwy, byddwn yn cynnal hunanasesiad yn erbyn safon gydnabyddedig (e.e. ISO20400) ac yn anelu at wella perfformiad o flwyddyn i flwyddyn.

#### 9.5.7 Gweithio gyda Busnesau Bach a Chanolig a Busnesau Lleol

Byddwn yn hysbysebu pob tendr agored dros £50k yn agored ar GwerthwchiGymru er mwyn sicrhau bod busnesau lleol a bychain yn cael cyfle cyfartal i wneud cais am waith gyda'r brifysgol. Caiff hyn ei gefnogi gan ddogfennaeth arweiniol i gyflenwyr yn egluro sut i dendro am waith gyda'r brifysgol.

Byddwn yn annog contractwyr mwy (e.e. contractwyr adeiladu) i is-gontractio gwaith i fusnesau llai, mwy lleol, gan hysbysebu'r cyfleoedd hyn ar GwerthwchiGymru lle bo hynny'n ymarferol.

Pan fo modd, byddwn yn rhannu contractau mwy yn lotiau er mwyn annog cwmnïau llai i wneud cais. Bydd adborth manwl yn cael ei roi i gyflenwyr ar ddiwedd y broses dendro i amlygu meysydd posibl i'w gwella wrth gyflwyno ceisiadau yn y dyfodol.

#### 9.5.8 Safon Cydraddoldeb

Mae [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#) Prifysgol Bangor yn amlinellu dull gweithredu'r brifysgol i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da ymhlith staff, myfyrwyr a'r gymuned ehangach.

Yn unol â gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus Deddf Cydraddoldeb 2010, bydd Prifysgol Bangor yn rhoi sylw dyledus i'r ddyletswydd gyffredinol wrth gaffael gwaith, nwyddau neu wasanaethau. Yn ymarferol mae hyn yn golygu y bydd Prifysgol Bangor yn ystyried defnyddio meini prawf dyfarnu priodol a hefyd y defnydd o amodau perfformiad contract mewn contractau perthnasol.

Wrth ddyfarnu contractau perthnasol, bydd y brifysgol hefyd yn ystyried dulliau gweithredu darpar gyflenwr ym maes cydraddoldeb, o ran ei arferion cyflogaeth a'r modd y darperir gwasanaethau. Bydd hyrwyddo cydraddoldeb yn cael ei fonitro a'i reoli yn ystod oes y contract, yn enwedig lle bo cydraddoldeb yn cael ei bennu'n ofyniad craidd.

#### 9.5.9 Iaith Gymraeg.

Ymgwymerir â phob achos o gaffael yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg Prifysgol Bangor a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Byddwn yn croesawu ceisiadau tendro a gyflwynir yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn gweinyddu'r broses yn unol â dewis iaith y cynigydd. Byddwn yn hysbysebu cytundebau yn Gymraeg os yw testun y gwahoddiad i dendro yn awgrymu y dylid ei gyhoeddi yn Gymraeg neu os yw'r gynulleidfa / disgwyliadau yn awgrymu y dylid ei gyhoeddi yn Gymraeg.

#### **Meysydd i'w gwella:**

- CSR1:** Arddangos a chyfathrebu am ymarferion caffael â deilliannau cynaliadwy/cyfrifol llwyddiannus. I'w hadrodd yn flynyddol yn yr adroddiad caffael.
- CSR2:** Nodi offeryn meincnodi priodol i asesu aeddfedrwydd caffael cynaliadwy a monitro cynnydd tuag at arferion a phrosesau caffael cynaliadwy.
- CSR3:** Sicrhau ymrwymiad corfforaethol i alluogi budd cymdeithasol o ganlyniad i weithgareddau caffael.

**CSR4:** Cynnal 'diwrnod cyflenwyr' blynyddol i groesawu busnesau lleol i ddysgu sut y gallant fod yn gyflenwyr i'r Brifysgol.

## 9.6 Cydweithio

Mae Prifysgol Bangor yn aelod llawn o'r *North Western Universities Purchasing Consortium* (NWUPC) ac yn annog defnyddio fframweithiau'r Consortiwm lle bo'n bosib. Mae'r brifysgol hefyd yn cefnogi'r defnydd o fframweithiau a ddarperir gan Wasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru, Gwasanaethau Masnachol y Goron a chonsortia eraill a arweinir gan y sector cyhoeddus.

Mae Prifysgol Bangor hefyd yn aelod cyswllt o Gonsortiwm Pwrcasu Addysg Uwch Cymru ac yn gweithio'n agos gydag arweinwyr caffael mewn sefydliadau addysg uwch eraill yng Nghymru, yn enwedig ar faterion polisi caffael ac ar ddatblygu a gwella caffael yn y sector yn gyffredinol.

Yn 2020/21, gwariodd y brifysgol oddeutu 29% o'r gwariant hwnnw y gallai ddylanwadu arno drwy gytundebau cydweithredol, sy'n cyfateb â chyfartaledd y sector. Serch hynny, ystyrir y gellid gwario mwy trwy drefniadau cydweithredol a bydd hyn yn parhau i fod yn ffocws allweddol yn y Strategaeth.

### Meysydd i'w gwella:

**C1:** Datblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer defnyddio contractau/fframweithiau y cytunwyd arnynt i sicrhau bod gwariant yn cael ei sianelu i'r cytundebau hynny.

## 9.7 Systemau Gwybodaeth/P2P

Mae Prifysgol Bangor yn defnyddio rhywfaint o dechnoleg i gynnal gweithgareddau cyrchu cyflenwyr a phrynu. Gwneir gweithgareddau prynu i dalu (P2P) o fewn pecyn cyllid y brifysgol, Unit4 ERP, sy'n caniatáu creu llyf gwaith electronig sy'n cynnwys hawliadau, archebion a chymeradwyaeth. Mae gan y brifysgol fynediad i eFarchnad sy'n gysylltiedig ag Unit4 ERP, ond ychydig o ddefnydd sydd wedi'i wneud ohono hyd yma am mai cyfyngedig fu'r adnoddau TG i ddatblygu'r system. Prynnir nwyddau sy'n gysylltiedig â'r llyfrgell trwy ALMA a nwyddau arlwygo drwy system ProcureWizard. Derbynnir oddeutu 13% o anfonebau yn electronig a'r gweddill trwy e-bost a'u sganio i Unit4 ERP. Defnyddir anfonebau cyfunol ar gyfer pryniannau rheolaidd ar raddfa fawr megis cyfleustodau, data symudol ac arlwygo.

O ran cyrchu cyflenwyr, mae Prifysgol Bangor yn hysbysebu pob tendr gwerth £50k+ ar wefan GwerthwchiGymru. Ymglymerir â phrosesau tendro yn electronig drwy system eTenderwales (Jaggaer) a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

Defnyddir cardiau prynu ar gyfer trafodion gwerth isel, unwaith-yn-unig, a rheolir uwchlwytho a chysoni trwy Unit 4 ERP.

Er mwyn gwireddu dyheadau “digidol yn gyntaf” y brifysgol, mae angen strategaeth TGCh bwrpasol ar gyfer datblygiad pellach eFarchnad ac mae angen gwelliannau TG eraill yn y maes caffael, gan gynnwys proses symlach ar gyfer archebion tramor.

**Meysydd i'w gwella:**

- IS1:** Datblygu strategaeth TGCh caffael i symud ymlaen tuag at awtomeiddio prosesau, a thrwy hynny gynyddu effeithlonrwydd a mynediad at wybodaeth a data.
- IS2:** Cynyddu canran y trafodion derbynneb a thaliad sy'n cael eu prosesu drwy system P2P a gwella perfformiad cydweddu 3 ffordd.

**9.8 Strategaeth a Pholisi Cyflenwyr**

Ar hyn o bryd nid oes gan Brifysgol Bangor ddull gweithredu unedig at reoli cyflenwyr a chontractau. Mae angen dull mwy cyfannol o reoli cyflenwyr gan gynnwys symud tuag at ddull rheoli categori. Dylid rheoli contractau ar sail sefydliad cyfan yn hytrach nag ar sail adrannol.

Mae angen rhoi mwy o bwyslais ar reoli contractau a rhoddir hyfforddiant i reolwyr contract yn dilyn cyhoeddi'r llawlyfr rheoli contractau, gyda'r nod o wella perfformiad cyflenwyr a lleihau risg.

Ar hyn o bryd mae tendrau'n cael eu gwerthuso o safbwynt y mwyaf manteisiol yn economaidd ar sail cost ac ansawdd. Dylid gwerthuso tendrau yn y dyfodol ar sail costau oes gyfan neu gyfanswm costau caffael, lle bo'n briodol. Yn ogystal, dylai contractau gynnwys dangosyddion perfformiad allweddol clir i fonitro defnydd, gwariant, arbedion a pherfformiad yn erbyn telerau contract.

**Meysydd i'w gwella:**

- SS1:** Hyfforddiant i'w gynnig ar Reoli Contractau a'i gysylltu â chanllawiau Rheoli Contractau'r Brifysgol.
- SS2:** Strategaethau parhad busnes i'w rhoi ar waith ar gyfer contractau risg uchel a chanolog.
- SS3:** Cynhyrchu manyleb gadarn a manylebau allbwn lle bo'n briodol (cyswllt ag O2). Y Tîm Caffael i gael y cyfle gweithredol i herio gofynion a manylebau.
- SS4:** Sicrhau bod costau oes gyfan a chyfanswm costau caffael yn cael eu hymgorffori i dendrau. Cysylltu'n ôl â gwersi a ddysgwyd o ymarferion tendro blaenorol.
- SS5:** Ymgorffori mesurau i gontractau i sicrhau bod cyflenwyr yn bodloni'r telerau a amlinellir yn y contractau a bod yr holl ddangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

## 9.9 Rheolaeth Gategori

Mae rheolaeth gategori yn ddull strategol o gaffael sy'n cyfeirio at osod eitemau gwariant cysylltiedig mewn grwpiau - 'categoriâu' corfforaethol, traws-swyddogaethol - gyda'r bwriad o ganfod cyfleoedd gwerth. Mae rheolwyr categori yn gyfrifol am ddatblygu strategaethau categori yn dilyn dadansoddiad manwl o'r farchnad.

Oherwydd maint bychan y tîm a gyflogir gan y brifysgol ar hyn o bryd, ni fu'n bosibl ystyried mabwysiadu dull rheolaeth gategori ar gyfer caffael. Os bydd modd rhyddhau adnoddau pellach, y nod fydd mabwysiadu dull rheolaeth gategori.

### Meysydd i'w gwella:

**CM1:** Gweithredu dull rheolaeth gategori ar gyfer caffael. Bydd hyn yn golygu datblygu strategaethau categori ac achosion busnes cyn caffael.

## 10. Cynllun Gwella Caffael Blynyddol.

Bydd y Dirprwy Gyfarwyddwr (Caffael a Thaliadau) yn paratoi cynllun gwella caffael bob blwyddyn fel atodiad i'r Strategaeth Caffael. Bydd y cynllun gwella yn manylu ar y gweithgareddau a gynhelir bob blwyddyn i gwrdd ag amcanion y Strategaeth Caffael.

## 11. Dangosyddion Perfformiad

Defnyddir dangosyddion perfformiad caffael i ddangos cynnydd ac at ddibenion meincnodi i asesu perfformiad cyffredinol. Mae rhestr o'r dangosyddion a awgrymir wedi'i chynnwys yn Atodiad 1.

## 12. Adolygu

Caiff y Strategaeth Caffael a'r cynllun gweithredu eu hadolygu'n flynyddol wrth lunio'r cynllun gwella caffael blynyddol. Os bydd angen newidiadau sylweddol, caiff y Strategaeth ei diwygio a'i hailgyhoeddi neu atodir adendwm.

Adroddir am gyrhaeddiad yn erbyn targedau i Fwrdd Gweithredol y Brifysgol ac i'r Pwyllgor Archwilio a Risg fel rhan o'r Adroddiad Caffael Blynyddol.

## Atodiad 1 - Dangosyddion Perfformiad

<b>Cyf:</b>	<b>Dangosyddion Perfformiad Meincnod (Cenedlaethol)</b>
<b>PPI1</b>	Cyfanswm cost swyddogaeth caffael fel canran o'r gwariant y gellir dylanwadu arno.
<b>PPI2</b>	Canran y gwariant y gellir dylanwadu arno a sianelwyd drwy drefniadau caffael cydweithredol.
<b>PPI3</b>	Canran y gwariant y gellir dylanwadu arno gyda Busnesau Bach a Chanolig
<b>PPI4</b>	Canran y gwariant y gellir dylanwadu arno a ddylanwedir yn weithredol arno gan y swyddogaeth gaffael.
<b>PPI5</b>	Arbedion caffael blynyddol fel canran o'r gwariant y gellir dylanwadu arno.
	<b>Dangosyddion Perfformiad Trafodiadol</b>
<b>BU1</b>	Canran yr anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod.
<b>BU2</b>	Canran yr archebion a godwyd ar ôl derbyn anfoneb.
<b>BU3</b>	Canran yr archebion a godwyd heb archeb prynu.
<b>BU4</b>	Canran y cyflenwyr newydd a grëwyd ar Agresso ar ôl derbyn anfoneb
<b>BU5</b>	Canran y gyfradd gyfateb tro cyntaf yn achos cyfatebiaeth 2 ffordd (Archeb Prynu + Anfoneb) neu gyfatebiaeth 3 ffordd (Archeb Prynu + Nodyn Derbyn Nwyddau + Anfoneb).
<b>BU6</b>	Dadansoddiad Pareto ar % Gwariant v % Cyflenwyr
	<b>Dangosyddion Perfformiad Strategol</b>
<b>BU7</b>	Cyfran gwariant gyda chyflenwyr o Gymru yn seiliedig ar y cyflenwyr y mae eu lleoliad yn hysbys.
<b>BU8</b>	Canran y gwariant y gellir dylanwadu arno a gwmpesir gan contract. (Targed 75%)
<b>BU9</b>	Nifer y projectau sy'n cynnwys cymalau gwerth cymdeithasol a/neu Werth y budd cymdeithasol a geir trwy gaffael.
<b>BU10</b>	Nifer y contractau newydd ac wedi'u hadnewyddu sy'n cael eu hasesu gan ddefnyddio'r Rhestr Wirio Caffael Cynaliadwy.
<b>BU11</b>	Deilliannau cynaliadwy a gyflawnwyd o gaffael (naratif).
<b>BU12</b>	Nifer y rhai sy'n tendro'n llwyddiannus sydd â System Rheoli Amgylcheddol wedi'i ddilysu'n annibynnol.
<b>BU13</b>	Nifer y rhai sy'n tendro'n llwyddiannus sydd â Safon Llwybr at Sero Net.